

CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

# ŴYL Y GAEAF CAERDYDD



Rydyn ni'n ôl am 2019 - yn fwy ac yn well nag erioed o'r blaen! O 8 Tachwedd 2019 tan 5 Ionawr 2020, gallwch ymuno â ni am y profiad gaeaf eithaf - gyda digon o sglefrïo iâ, atyniadau ffair hwyliog, bwyd a diod, a hwyl Nadoligaidd ar gael i bawb!

Rydyn ni'n hoffi cadw pethau'n ffres, a dyna pam rydyn ni wedi ailwampio ein safle! Wrth ychwanegu ein Llwybr iâ, rydym wedi symud pethau o gwmpas, ond rydym yn \*addo\* bod modd dod o hyd i'ch holl hoff atyniadau ar y safle i chi gael mwynhau'r gaeaf hwn. Rydym hefyd wedi ychwanegu rhai manau eistedd i'n safle, a fydd yn cael eu gorchuddio er eich cysur ac ar gael i bawb eu defnyddio y gaeaf hwn.

## LLWYBR IÂ ALPAIDD

Yn newydd sbon i Gaerdydd ar gyfer 2019, mae ein llwybr iâ cyffrous yn mynd â chi ar daith o gwmpas Gŵyl y Gaeaf fel na fuoch chi erioed arno o'r blaen (yn llythrennol)! Yr unig un o'i fath yn y DU, mae ein llwybr iâ 250m o hyd yn yr awyr agored, gan ganiatáu i sglefrwyr gael eu trochi'n llwyr yn ein profiad gaeaf a gweld y safle cyfan - heb dynnu eu sgidiau sglefrïo! Archebwch eich tocynnau Llwybr iâ nawr.

## OLWYN FAWR

Mae ein Olwyn Fawr yn newydd sbon ar gyfer 2019 gyda rhai nodweddion newydd anhygoel. Erbyn hyn mae gan ein Olwyn gerbyd cwbl hygyrch, sy'n golygu bod pob oed a gallu yn gallu mynd i'r awyr a gweld Caerdydd yn ei holl ogoniant Nadoligaidd.

## COEDEN NADOLIG

Mae ein Coeden Nadolig yn eistedd yng nghanol Gerddi'r Orsedd, wedi'i haddurno gan ysgol gynradd leol, Ysgol Gynradd Coed Glas. Mae'r holl addurniadau o amgylch y goeden a'r llwybr iâ yn ddeunydd eildro. Gyda'r disgyblion yn cael rhyddid i ddefnyddio addurniadau Nadolig fel y mynnent, sefwrch yn ôl ac edmygwch Ŵyl y Gaeaf eleni.

## COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!



Dysgwch fwy yn [croesocaerdydd.com](http://croesocaerdydd.com)

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!  
#CroesoCaerdydd

